Y Cynllun Gwarantu Cyfweliad

“Rydym wedi ymrwymo i Gyfleoedd Cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl”

Beth mae’r cynllun yn ei gynnig?
Nod y Cynllun Gwarantu Cyfweliad (GIS) yw rhoi cyfle i ymgeiswyr anabl ddangos eu galluoedd y tu hwnt i’r cam cyntaf o wneud cais. Byddwn yn cynnig cyfweliad i ymgeiswyr anabl ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd.

Ystyr ‘gofynion sylfaenol’, yw bod angen i chi ddangos tystiolaeth ar eich ffurflen gais sy’n profi eich bod chi’n bodloni’r lefel gyffredinol o gymhwysedd sydd ei hangen ar gyfer pob un o’r gofynion hanfodol, yn ogystal â’r gofynion hanfodol o ran cymwysterau, sgiliau neu brofiad**. Eich dewis chi yw datgan anabledd at ddibenion cymhwyso ar gyfer y GIS ac mae’n hollol wirfoddol.**

Pwy sy’n gymwys ar gyfer y cynllun?
Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, rhaid i chi fod yn anabl yn ystyr Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae hyn yn golygu bod gennych nam corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith andwyol sylweddol tymor hir ar eich gallu i gyflawni’ch gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd nawr, neu y bu nam o’r fath arnoch yn y gorffennol. Mae hyn yn cynnwys namau synhwyraidd, pobl sydd wedi dioddef anabledd yn y gorffennol er nad ydynt yn anabl mwyach, pobl y mae eu hanabledd yn debygol o bara deuddeg mis neu am weddill eu hoes, a phobl y mae eu hanhwylder yn debygol o waethygu neu ailddigwydd. Ystyrir bod anffurfiad difrifol yn anabledd hefyd.

Os hoffech chi wneud cais ar gyfer y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, ticiwch y blwch priodol:
Hoffwn Na hoffwn

Cymorth ar gyfer y cyfweliad
Er mwyn sicrhau nad ydyn ni’n gosod unrhyw rwystrau anfwriadol yn ein proses recriwtio, ac i’n helpu ni i weithredu ein polisi cyfleoedd cyfartal yn effeithiol, dywedwch wrthym os hoffech chi gael unrhyw fath penodol o gymorth yn ystod eich cyfweliad/profion dethol, er enghraifft (ticiwch y blwch priodol):

Dolen sain ☐

Mynediad i gadair olwyn ☐

Man parcio car ☐

Cymorth i fynd i mewn ac allan o’ch cerbyd ☐

Cymorth arall (rhowch y manylion isod) ☐

Os oes gennych chi offer arbennig a’ch bod chi am ddod ag e gyda chi i’ch helpu i gystadlu ar delerau cyfartal, rhowch y manylion isod

Enw (llythrennau bras): ☐

Y swydd yr ymgeisir amdani: ☐

Cyflwynwch y ffurflen hon ynghyd â’ch cais i: hrrecruitment@companieshouse.gov.uk